Adroddiad i'r Cabinet

Dyddiad y cyfarfod: 23 Tachwedd 2021

Aelod Arweiniol / Swyddog: Y Cynghorydd Bobby Feeley / Catrin Roberts (Tîm Cydweithio Rhanbarthol)

Awdur yr Adroddiad: Catrin Perry / Siobhan Gothorp (Tîm Cydweithio Rhanbarthol)

Teitl Gwahoddiad i Dendro'r Gwasanaeth Cymorth Asesu Cof Rhanbarthol.

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Ceisir cymeradwyaeth y Cabinet i Gyngor Sir Ddinbych weithredu fel y Comisiynydd Arweiniol ar ran y Tîm Cydweithio Rhanbarthol (partneriaid y chwe Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yng Ngogledd Cymru] ar Wahoddiad i Dendro gyda gwerth contract posibl o hyd at £3.36 miliwn (dros gyfnod posibl o 5 mlynedd) ar gyfer y Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae angen gwneud penderfyniad ynghylch a all Cyngor Sir Ddinbych weithredu fel y Comisiynydd Arweiniol.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod Cyngor Sir Ddinbych yn gweithredu fel y Comisiynydd Arweiniol ar gyfer y Gwahoddiad i Dendro'r Gwasanaeth Asesu Cymorth Cof Rhanbarthol.

3.2. Bod ymarfer y Gwahoddiad i Dendro'n cael ei arwain gan dîm caffael Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn sy'n addas ar gyfer gwerth posibl y contract.

3.3. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad A) fel rhan o'i ystyriaethau.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1. Mae Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol Gogledd Cymru drwy'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol, wedi sicrhau cyllid ychwanegol / newydd a chylchol gwerth £672,000 / y flwyddyn gan Lywodraeth Cymru i ddatblygu dull rhanbarthol gwell i gefnogi unigolion sydd â dementia neu broblemau / pryderon mewn perthynas â'r cof yn ystod y camau cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis.

4.2. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'r cyllid dan ei Raglen 'Cyllid Gofal Integredig'. Sefydlwyd y rhaglen Cyllid Gofal Integredig i hwyluso cydweithio gwell rhwng gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal iechyd, a'i gwneud yn haws i unigolion gael mynediad at wasanaethau o ansawdd uchel cyn gynted â phosibl.

4.3. Dylid defnyddio'r cyllid i gefnogi gweithrediad 'Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru (Mawrth 2020)'.

4.4. Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru, sy'n cynnwys Cyfarwyddwyr Strategol Gofal Cymdeithasol Awdurdodau Lleol, yn llywodraethu a chraffu ar y prosiect.

4.5. Bydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn rheoli dosbarthiad y cyllid ar ran y prosiect. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu cyfrif cadw at y diben hwn.

4.6. Pwrpas y Gwahoddiad i Dendro yw nodi partneriaid y gallai'r prosiect weithio gyda hwy i ddatblygu a gweithredu lefel gyson o fynediad at wasanaethau a fydd yn darparu cefnogaeth yn ystod y cam cyn-asesu (h.y. mynediad at wybodaeth a chanllawiau) a'r cam ôl-ddiagnosis (h.y. cefnogaeth hirdymor) i'r rheiny sy'n colli'r cof, yn pryderu am eu cof neu'n dioddef â dementia, a'u teulu / gofalwyr.

4.7. Y weledigaeth yw y bydd y partneriaid a nodwyd yn sefydlu gwell lefel o gefnogaeth, gan adeiladu ar yr arferion rhagorol sydd eisoes ar waith ar draws y rhanbarth a darparu rhwydwaith gyson a hygyrch o gefnogaeth i'r rheiny sy'n pryderu am golli'r cof. Bydd mynediad at gymorth yn cael ei ddatblygu drwy weithredu rhwydwaith o ganolfannau / pwyntiau mynediad ar draws y rhanbarth o fewn y cymunedau lle nad ydynt ar gael ar hyn o bryd. Bydd cefnogaeth gyson yn cael ei darparu drwy ddatblygu llwybrau atgyfeirio a llwybrau cymorth

rhanbarthol. Yn ei hanfod, mae'r prosiect yn ceisio gweithredu dull 'siop un alwad' a 'thaith dementia' yn rhanbarthol sy'n ategu at yr arferion rhagorol sydd eisoes ar waith yn lleol, i ddarparu lefelau cefnogaeth gwell i'r rheiny sy'n pryderu am golli'r cof.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1. Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru (Mawrth 2020).

Mae cefnogaeth i bobl sy'n byw â dementia yn flaenoriaeth yng 'Nghynllun Rhanbarthol Gogledd Cymru (Cynllun Ardal)' yn seiliedig ar y pethau y dywedodd pobl a oedd yn bwysig iddyn nhw fel rhan o'r 'Asesiad o Boblogaeth Gogledd Cymru'.

Mae 'Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014' yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol i flaenoriaethu integreiddio gwasanaethau mewn perthynas â phobl hŷn ag anghenion cymhleth a chyflyrau hirdymor, gan gynnwys dementia.

Mae 'Strategaeth Ddementia Gogledd Cymru (Mawrth 2020)' yn nodi sut y byddwn yn gweithio tuag at wasanaethau dementia integredig yng Ngogledd Cymru. Fe'i datblygwyd ar y cyd gan y chwe chyngor yng Ngogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) gyda chefnogaeth gan Iechyd Cyhoeddus Cymru, Prifysgol Bangor a phartneriaid eraill.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Mae'r Tîm Prosiect wedi dyrannu'r gyllideb ganlynol ar gyfer y gwasanaethau a geisir o dan bob cyfran o'r Gwahoddiad i Dendro:

Cyfran 1: Darparu cefnogaeth cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis rhanbarthol (h.y. Gwybodaeth, cyngor, canllawiau + cefnogaeth drwy'r Llwybr Asesu'r Cof): £360,000 y flwyddyn;

Cyfran 2: Dynodwyr Rhanbarthol (h.y. Dynodi a chefnogi'r rheiny sy'n derbyn diagnosis mewn lleoliadau iechyd eraill): £112,000 y flwyddyn;

Cyfran 3: Darparu Canolfannau Dementia Rhanbarthol (h.y pwyntiau mynediad corfforol at wasanaethau a gwybodaeth, cyngor a chanllawiau o fewn y gymuned): £200,000 y flwyddyn.

6.2. Nid oes unrhyw gostau ychwanegol i'r Cyngor na'r Partneriaid am reoli'r Gwahoddiad i Dendro. Bydd aelodau presennol o staff o'r Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn darparu cymorth rheoli prosiect i'r Gwahoddiad i Dendro. Bydd Adran Caffael Corfforaethol presennol Cyngor Sir Ddinbych / Cyngor Sir y Fflint ac Adran Gwasanaethau Cyfreithiol Cyngor Sir Ddinbych yn darparu cymorth ar agweddau caffael a chyfreithiol y Gwahoddiad i Dendro.

6.3. Bydd y goblygiadau i wasanaethau eraill yn cynnwys gwella a chynyddu'r ddarpariaeth bresennol drwy ddarparu llwybr i bartneriaid a gwasanaethau eraill ei ddilyn ar draws y rhanbarth a chreu mynediad teg at wasanaethau i bobl â phroblemau yn ymwneud â'r cof, Dementia a'u teulu / gofalwyr.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o'r Effaith ar Les?

7.1. Cwblhawyd ac adolygwyd yr Asesiad o Effaith ar Les gan y Tîm Cydweithio Rhanbarthol yn ystod camau cynllunio cychwynnol a pharhaus.

7.2. Bydd y llwybr yn darparu gwasanaethau rhanbarthol effeithlon, effeithiol a theg ar gyfer pobl sydd â dementia a'u gofalwyr.

7.3. Bydd y llwybr yn gwaredu'r dyblygiad a nodwyd ac yn galluogi defnydd effeithiol o gyllid a darpariaeth gwasanaeth.

7.4. Bydd y llwybr yn sicrhau bod unigolion yn derbyn cefnogaeth cyn ac ar ôl cael diagnosis ar draws y rhanbarth.

7.5. Bydd y llwybr yn cynnig darpariaeth gwasanaeth ychwanegol o ran cefnogaeth cyn diagnosis i gefnogi gwelliannau a chanlyniadau iechyd.

7.6. Bydd y llwybr yn darparu prosesau cydweithio a gweithio integredig dan gontract rhwng darparwyr.

7.7. Bydd y llwybr yn cefnogi nodweddion a ddiogelir ac yn darparu cefnogaeth drwy gyfrwng y Gymraeg a / neu iaith ddewisol.

7.8. Mae'r cyllid yn rheolaidd ac yn cael ei reoli'n rhanbarthol, i sicrhau cynaliadwyedd y prosiect.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd ag aelodau o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru pan gafodd y cais ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru er mwyn datblygu dull rhanbarthol gwell ar gyfer cefnogi unigolion sy'n pryderu am golli'r cof yn ystod y camau cyn-asesu ac ôl-ddiagnosis. Mae Grŵp Arweinyddiaeth a Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi cymeradwyo a chanmol y cais. Bydd y Tîm Prosiect yn adrodd ar gynnydd i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol.

8.2. Bydd Grŵp Arweinyddiaeth Gogledd Cymru'n llywodraethu ac yn craffu ar y prosiect.

8.3. Bydd y Tîm Prosiect yn darparu adroddiadau chwarterol i'r Grŵp Arweinyddiaeth.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Mae'r gwasanaeth wedi cadarnhau bod y cyllid allanol ar gyfer costau'r gweithgarwch rhanbarthol hwn wedi cael ei gadarnhau. Mae gan Gyngor Sir Ddinbych enw da am reoli cydweithrediad rhanbarthol a fydd yn helpu i sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn. Cefnogir yr argymhellion.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Byddai ymarfer y Gwahoddiad i Dendro'n cael ei arwain gan dîm caffael Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod y drefn briodol sy'n addas ar gyfer y gwerth contract posibl yn cael ei dilyn. Mae hyn yn lleihau'r perygl o heriau.

10.2. Rhennir y perygl o her gyfreithiol ymhlith y Partneriaid Cydweithio Rhanbarthol yn unol â Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru – Cytundeb Cydweithio Bwrdd Comisiynu Rhanbarthol Gogledd Cymru 2019 – 2024.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1. Mae'r Rheol Gweithdrefn Contract 2.7.2 ii yn ei gwneud yn ofynnol i gaffaeliad sy'n werth dros £2,000,000.01 gael ei gymeradwyo gan y Cabinet.